**ATODIAD 1.**

# Protocolau gyda Chyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol, Cyngor Gwynedd

## Cynnwys:


1. **Cyfrifoldebau Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol**
2. **Protocol gyda'r Cyfarwyddwr Arweiniol – Plant a Phobl Ifanc**
3. **Protocol gyda'r Prif Weithredwr**
4. **Protocol gyda Phennaeth yr Adran Darparu a Hamdden**
5. **Protocol gyda'r Cyfarwyddwr Corfforaethol**
6. **Partneriaethau**

   i) **Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc**
   ii) **Bwrdd Diogelu Plant Gwynedd a Môn**
   iii) **Partneriaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles**
   iv) **Partneriaeth Diogelwch Cymunedol**

7. **Trefniadau Gweithredol**

   i) **Prif Weithredwr**
   ii) **Y Cyfarwyddwr Arweiniol – Plant a Phobl Ifanc**

**iii) Cyfarwyddwr Statudol Cyngor Gwynedd**
**iv) Pennaeth Gwasanaethau Darparu a Hamdden**

**8. Y Strwythur Trefniadol**

## 1. Cyfrifoldebau'r Cyfarwyddwr Statudol

**Mae'r Cyfarwyddwr Statudol yn gyfrifol, yn strategol ac yn weithredol, am y canlynol:**

- Darparu arweiniad proffesiynol eglur ar holl elfennau "Gwasanaethau Cymdeithasol" y Cyngor (fel y'u diffinnir yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol 1970 (fel y'i diwygiwyd)).
- Cysylltu'n uniongyrchol â'r Prif Weithredwr ac Aelodau a rhoi cyngor am faterion sydd yn ymwneud â'r Cyngor ynglŷn â Gwasanaethau Cymdeithasol, y cyfeiriad y dylai'r Cyngor ei ddilyn a sut y dylai'r Cyngor weithredu.
- Sicrhau trefniadau cadarn ar gyfer rheoli perfformiad ar draws y Gwasanaethau Cymdeithasol, gan adrodd ar lefel gorfforaethol ac wrth yr Aelodau.
- Sicrhau trefniadau cadarn ar gyfer adrodd ynghyd â gweithdrefnau ar gyfer diogelu plant ac oedolion, gan adrodd ar lefel gorfforaethol ac wrth yr Aelodau.
- Ysgwyddo'r cyfrifoldeb am gynllunio a hyfforddi gweithlu'r Gwasanaethau Cymdeithasol ac am eu datblygiad proffesiynol.
- Sicrhau bod trefniadau cadarn ac effeithiol wedi eu sefydlu er mwyn caniatáu i Wasanaethau Cymdeithasol y Cyngor gyd-weithio'n foddhaol gydag eraill y tu mewn i'r Cyngor a thu allan iddo.
- Gweithredu fel y swyddog uwch o fewn y Cyngor sydd yn llwyr atebol am ddiogelu a hyrwyddo lles plant sy'n agored i niwed.
- Sicrhau bod trefniadau'r Cyngor ar gyfer asesu anghenion strategol a chomisiynu'n canfod ac yn blaenoriaethu holl anghenion plant, pobl ifanc, oedolion yn cynnwys pobl hŷn a gofalwyr, ac yn rhoi cyngor i'r cynghorwyr ynglŷn â'r goblygiadau.
- Cynghori'r Prif Weithredwr ac aelodau ar faterion ynglŷn â maes gwasanaethau cymdeithasol ac ar y cyfeiriad a'r gweithredoedd y dylai'r Cyngor eu mabwysiadu er mwyn iddo gyflawni ei gyfrifoldebau ym maes y gwasanaethau cymdeithasol.
- Gweithredu fel pwynt cyswllt y Cyngor am faterion ynglŷn â Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol y Cynulliad a'r rheoleiddwyr perthnasol.

- Adrodd wrth y Cyngor yn flynyddol am gyflwyniad, perfformiad a risg holl swyddogaethau'r gwasanaethau cymdeithasol, a chyflwyno cynlluniau gwella ar eu cyfer.
- Gweithredu fel rheolwr llinell uniongyrchol yr holl adnoddau a bennwyd ar gyfer cynllunio, comisiynu, asesu, rheoli gofal a chynllunio'r gweithlu ym meysydd Oedolion a Phlant.
-

## 2. Cyfrifoldebau'r Prif Weithredwr

**Mae'r Prif Weithredwr yn gyfrifol am y canlynol:**

- Arwain y sefydliad gyda'r gallu i gyflawni'n llwyddiannus ac er mwyn sicrhau gwella parhaus.
- Bod yn atebol i'r Cyngor a'r cyhoedd am weithrediad holl wasanaethau'r Cyngor.
- Ysgwyddo'r cyfrifoldeb am reoli ac arwain yr holl Gyfarwyddwyr a Phenaethiaid Gwasanaeth ac am greu'r amgylchfyd sy'n caniatáu i eraill berfformio, arloesi a darparu arweiniad o fewn eu gwasanaethau.
- Bod yn atebol fel Pennaeth y Staff Cyflogedig am y cyngor a roddir i aelodau am ddyrannu adnoddau.
- Bod yn atebol am sicrhau (yn aml trwy'r Penaethiaid Gwasanaeth) bod systemau rheoli a monitro wedi'u sefydlu a rhoi gwybodaeth lawn am yr holl elfennau o berfformiad y Cyngor iddynt hwy ac i'r arweinyddiaeth wleidyddol.
- Sicrhau bod y Cyngor yn penodi Cyfarwyddwr Statudol o fewn trefniadau'r Cyngor.
- Gallu adnabod unrhyw fethiannau cyfundrefnol a pharhaol o bwys yn y safonau ac yn ansawdd y gwasanaethau o fewn y gwasanaethau cymdeithasol a thrwy gyfrwng trefniadau gweithredol y cytunwyd arnynt, a sicrhau bod y rhain yn cael eu cywiro.
- Sicrhau, o fewn y gwasanaethau cymdeithasol ac ar y cyd ag aelodau etholedig, bod y lefel briodol o flaenoriaeth ac adnoddau'n cael eu rhoi i'r gwasanaeth.

## 3. Cyfrifoldebau'r Cyfarwyddwr Arweiniol – Plant a Phobl Ifanc

**Mae'r Cyfarwyddwr Arweiniol yn gyfrifol am y canlynol:**

- Sefydlu trefniadau effeithiol er mwyn sicrhau cydweithio rhwng y Cyngor, y prif bartneriaid a'r cyrff perthnasol, gyda'r bwriad o wella lles plant o ran:
  - (i) Eu hiechyd meddyliol a chorfforol a'u lles emosiynol;
  - (ii) eu diogelu rhag niwed ac esgeulustod;
  - (iii) addysg, hyfforddiant a hamdden;
  - (iv) eu cyfraniad i gymdeithas;
  - (v) eu lles cymdeithasol ac economaidd.
- Cynnig arweiniad er mwyn sicrhau bod gwaith Partneriaethol yn effeithiol a bod trefniadau llywodraethu eglur yn bodoli.
- Paratoi Cynllun Plant a Phobl Ifanc ar gyfer y Sir.
- Ysgwyddo'r cyfrifoldeb am sicrhau bod yr Hunan Asesiad yn cael ei wneud.
- Hyrwyddo hawliau plant trwy sicrhau bod yr Awdurdod yn cyflawni gofynion Confensiwn y Cenhedloedd Unedig.
- Gosod cyfeiriad strategol ym maes plant a phobl ifanc o fewn Cyngor Gwynedd.

## 4. Cyfrifoldebau Pennaeth y Gwasanaethau Darparu a Hamdden

**Mae Pennaeth Darparu a Hamdden yn gyfrifol am y canlynol:**

- Darparu gwasanaethau o ansawdd uchel sy'n cwrdd â gofynion statudol sydd ynghlwm wrth eu cofrestriad ac ymateb i'r anghenion a ganfyddir yn ystod y drefn gynllunio o fewn y Gwasanaethau Cymdeithasol.
- Penodi a datblygu'r gweithlu er mwyn cwrdd â'r anghenion a ganfyddir mewn perthynas â chynllun datblygu'r gweithlu a gofynion eraill a nodir gan Gyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol.

- Cyfrannu, ar sail proffesiynoldeb a phrofiad arbenigol, at drefniadau gwerthuso a chynllunio'r Gwasanaethau Cymdeithasol.
- Sicrhau bod capasiti gan yr Adran Darparu a Hamdden i ymateb i ofynion brys y Gwasanaethau Cymdeithasol o fewn eu gofynion statudol.
- Hysbysu am faterion ynglŷn â risgiau sy'n cyfrannu at allu'r Cyfarwyddwr Statudol i gyflawni ei (d)dyletswyddau.
- Cyflwyno adroddiadau rheolaidd am gynnydd i'r Gwasanaethau Cymdeithasol ar sail cytundebau gweithredol.
- Darparu gwasanaethau yn unol â'r hyn y cytunwyd arno trwy gyfrwng y broses gomisiynu, yn cynnwys y defnydd o gyllid.
- Sicrhau bod gwybodaeth a phrofiad o ddarparu gwasanaeth yn cael eu cyflwyno i'r Fframwaith Comisiynu.

## 5. Cyfrifoldebau'r Cyfarwyddwr Corfforaethol

**Mae'r Cyfarwyddwr Corfforaethol yn gyfrifol am y canlynol:**

- Datblygu a gwireddu'r weledigaeth, y gwerthoedd a'r blaenoriaethau strategol fel y'u diffinnir yn y Cynllun Tair Blynedd.
- Sefydlu a datblygu trefniadau rheoli rhaglen cadarn ar draws y Cyngor er mwyn goruchwylio'r gwaith o weithredu'r cynlluniau gwaith a fydd yn cyfrannu at wireddu'r blaenoriaethau strategol, gan sicrhau bod atebolrwydd a cherrig milltir yn eglur a phenodol.
- Darparu arweinyddiaeth ar ddatblygu a gweithredu prif strategaethau corfforaethol y Cyngor a fydd yn gwella lles economaidd a chymdeithasol trigolion ac economi'r Sir.
- Sicrhau aliniad rhwng yr amcanion strategol corfforaethol a blaenoriaethau a ffocws gwaith yr holl wasanaethau o fewn y Cyngor.
- Cefnogi'r broses Graffu'n gorfforaethol, gan fuddsoddi amser ac egni yn y meysydd sy'n achosi'r risg fwyaf i'r Cyngor.

- Cynnig cefnogaeth ac anogaeth i Benaethiaid Gwasanaeth ar draws y Cyngor er mwyn ymateb i rwystrau a hwyluso'r gwaith.

- Cymryd trosolwg o berfformiad ac effeithlonrwydd Gwasanaethau ar draws y Cyngor, gan adnabod y prif gamau i'w cymryd er mwyn gwella meysydd sy'n cynnig risgiau sylweddol i'r Cyngor.

- Arwain Partneriaethau penodol o fewn y Sir a sicrhau cydweithio effeithiol rhwng y Cyngor a phartneriaid perthnasol.

- Sicrhau bod gan Wynedd lais cryf mewn fforymau cenedlaethol a rhanbarthol er mwyn dylanwadu ar bolisïau cymdeithasol ac economaidd.

- Sicrhau y cyfathrebir yn effeithiol gyda'r swyddogion statudol, gan eu cynnwys yn gyson, i'w helpu i gwrdd â'u cyfrifoldebau statudol penodol.

**6. Partneriaethau**

**6.1 Y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc:**

- Mae'r Cyfarwyddwr Arweiniol yn gyfrifol am gydlynu'r trefniadau ar gyfer mynnu cydweithio rhwng Asiantaethau a thrwy waith y Bartneriaeth Strategol yng Ngwynedd, ac am gymryd trosolwg ohonynt.
- Mae'r Cyfarwyddwr Statudol yn gyfrifol am dynnu sylw at anghenion "plant mewn angen" a'u teuluoedd yn y rhaglen waith ac yn nhrafodaethau'r bartneriaeth Strategol yng Ngwynedd.
- Mae'r Cyfarwyddwr Arweiniol yn gyfrifol am sicrhau bod pob grŵp yn cyfrannu'n effeithiol at baratoi a datblygu'r Cynllun Plant a Phobl Ifanc o ran plant mewn angen a'u teuluoedd.
- Mae'r Cyfarwyddwr Arweiniol yn gyfrifol am sicrhau bod Cynllun Plant a Phobl Ifanc yn cael ei baratoi ar gyfer y Sir.

**6.ii) Y Bwrdd Diogelu:**

- Mae’r Cyfarwyddwr Arweiniol yn gyfrifol am gydlynu’r trefniadau ar gyfer cydweithio rhwng Asiantaethau trwy gyfrwng gwaith y Bwrdd Diogelu, ac am gymryd trosolwg ohonynt.
- Mae’r Cyfarwyddwr Statudol yn gyfrifol am sicrhau bod y Bwrdd Diogelu’n gweithio’n effeithiol, a bod gwersi’n cael eu dysgu oddi wrth adolygiadau o achosion difrifol.
- Mae’r Cyfarwyddwr Statudol yn atebol i’r Bwrdd o ran cyflawni gofynion statudol Cyngor Gwynedd ym maes amddiffyn plant.

**6.iii) Y Bartneriaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles:**

- Mae’r Cyfarwyddwr Corfforaethol yn gyfrifol am gydlynu’r trefniadau ar gyfer sicrhau cydweithio rhwng Asiantaethau a thrwy waith y Bartneriaeth Strategol yng Ngwynedd, ac am gymryd trosolwg ohonynt.
- Gan y Cyfarwyddwr Statudol y mae’r cyfrifoldeb arweiniol am faterion gwasanaethau cymdeithasol yn y gwaith o gynllunio a gwerthuso gwasanaethau a ddarperir o fewn trefniadau’r bartneriaeth.
- Mae’r Cyfarwyddwr Corfforaethol yn gyfrifol am sicrhau bod y Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles yn cael ei chyhoeddi yn ôl y gofyn.

**6.iv) Y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol**

- Gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol y mae’r cyfrifoldeb corfforaethol am arwain ar faterion sy’n ymwneud â materion diogelwch cymunedol.
- Mae’r Cyfarwyddwr Corfforaethol yn gyfrifol am gydlynu’r trefniadau ar gyfer mynnu cydweithio rhwng Asiantaethau a thrwy waith y Bartneriaeth Strategol yng Ngwynedd, ac am gymryd trosolwg ohonynt.
- Gan y Cyfarwyddwr Statudol y mae’r cyfrifoldeb arweiniol am faterion gwaith y gwasanaethau cymdeithasol yn y maes o fewn y trefniadau cynllunio ac am werthuso’r gwasanaeth a ddarperir o fewn trefniadau’r bartneriaeth.
- Mae’r Cyfarwyddwr Corfforaethol yn gyfrifol am sicrhau y caiff y Strategaeth Diogelwch Cymunedol ei chyhoeddi yn ôl y gofyn.

## 7. Trefniadau Gweithredol

### 7.i) Y Prif Weithredwr

| Y Prif Weithredwr | Y Cyfarwyddwr Statudol |
|---|---|
| Arwain Grŵp Arweinyddiaeth Gorfforaethol y Cyngor | Aelod o Grŵp Arweinyddiaeth Gorfforaethol y Cyngor |
| Cyfarfodydd Protocol neu gyfarfodydd chwarterol | Cyfarfodydd Protocol gyda'r Prif Weithredwr |

### 7ii) Cyfarwyddwr Arweiniol – Plant a Phobl Ifanc

| Y Cyfarwyddwr Statudol | Y Cyfarwyddwr Arweiniol |
|---|---|
| Aelod o Grŵp Arweinyddiaeth Gorfforaethol y Cyngor. | Aelod o Grŵp Arweinyddiaeth Gorfforaethol y Cyngor. |
| Aelod o Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc, gyda'r cyfrifoldeb am dynnu sylw at anghenion plant mewn angen a'u teuluoedd yn y rhaglen waith ac yn nhrafodaethau'r Bartneriaeth Strategol. | Aelod o Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc, gyda'r cyfrifoldeb am gynnig arweiniad ar gyfer gwaith y Bartneriaeth ac am sicrhau cydweithio effeithiol rhwng yr Asiantaethau perthnasol. |
| Aelod o'r Bwrdd Diogelu Plant a Phobl Ifanc | Aelod o'r Bwrdd Diogelu Plant a Phobl |

| | |
|---|---|
| – gyda'r cyfrifoldeb o fod yn Swyddog Arweiniol y Cyngor ar y Bwrdd ac am sicrhau y bydd y Bwrdd yn gweithredu'n effeithiol. Hefyd, swyddog cyfrifol/atebol gwasanaethau amddiffyn plant Cyngor Gwynedd. | Ifanc – gyda'r cyfrifoldeb am gydlynu cydweithio rhwng yr Asiantaethau perthnasol a mynnu bod hynny'n digwydd. |
| Aelod o Fwrdd Rhaglen Plant a Phobl Ifanc y Cyngor, gan sicrhau y telir sylw priodol i blant a phobl ifanc sydd mewn angen. | Aelod o Fwrdd Rhaglen Plant a Phobl Ifanc y Cyngor, gan gynnig arweinyddiaeth strategol i waith amlddisgyblaethol y Bwrdd a sicrhau cydweithio o fewn y Cyngor er mwyn cwrdd ag amcanion a blaenoriaethau Bwrdd y Rhaglen. |
| Aelod o Banel Rhiant Corfforaethol y Cyngor. | Swyddog Arweiniol Cyngor Gwynedd ar Banel Rhiant Corfforaethol y Cyngor. |
| Swyddog Arweiniol Cyngor Gwynedd ar y Bartneriaeth Cyfiawnder Ieuenctid. | Aelod o'r Bartneriaeth Cyfiawnder Ieuenctid. |
| Swyddog Arweiniol Cyngor Gwynedd ar yr holl faterion sy'n ymwneud â maes gwaith y Gwasanaethau Cymdeithasol. | Swyddog Arweiniol Cyngor Gwynedd ar gyfer y gwaith amlddisgyblaethol sy'n pontio gwasanaethau'r Cyngor. |
| Cyfarfodydd chwarterol gyda'r Cyfarwyddwr Arweiniol. | Cyfarfodydd chwarterol gyda'r Cyfarwyddwr Statudol. |

**7iii) Y Gwasanaeth Darparu**

| **Pennaeth y Gwasanaethau Cymdeithasol / Cyfarwyddwr Statudol** | **Pennaeth Darparu a Hamdden** |
|---|---|
| Cadeirio Tîm Busnes y Gwasanaethau Cymdeithasol. | Aelod o Dîm Busnes y Gwasanaethau Cymdeithasol. |
| Sicrhau comisiynu ar sail angen trwy gyfrwng trefniadau cynllunio:<br>i) gyda’r rheolwr perthnasol ym mhob maes gwaith penodol.<br>ii) Cyfarfodydd rheoli chwarterol rhwng yr Adran Darparu a Hamdden / Gwasanaethau Cymdeithasol.<br>iii) Sicrhau cyfraniad y Gwasanaeth Darparu a Hamdden i’r broses hunanasesu a chynllunio busnes. | Cyfrannu at werthuso a datblygu comisiynu trwy gyfrwng trefniadau cynllunio:<br>i) gyda’r rheolwyr perthnasol ym mhob maes gwaith penodol. Cyflwyno adroddiadau am reoli perfformiad.<br>ii) Cyfarfodydd rheoli chwarterol rhwng yr Adran Darparu a Hamdden / Gwasanaethau Cymdeithasol.<br>iii) Cyflwyno gwybodaeth am brofiad y darparwr a fyddai’n ychwanegu gwerth at y broses hunanasesu a chynllunio busnes. |
| Rheoli’n uniongyrchol yr uned Gofal Cwsmer sy’n darparu ymateb y Gwasanaethau Cymdeithasol i gwynion a sylwadau cwsmeriaid, ac yn cymryd trosolwg ohonynt, | Cyfrannu at ddysgu oddi wrth gwynion a sylwadau cwsmeriaid o fewn y trefniadau rheoli perfformiad. |

| | |
|---|---|
| gan alluogi'r Uned Darparu i gwrdd â'r gofynion statudol sydd arni fel darparydd statudol.<br>i) Y Rheolwr Gweithredol i fynychu cyfarfodydd rheoli ansawdd yr Adran Darparu a Hamdden. | i) Cyflwyno gwybodaeth yn amserol ac yn gyflawn am reoli ansawdd. |
| Sicrhau bod cynllun gweithlu'r gwasanaethau cymdeithasol yn ymateb i anghenion canfyddedig staff o fewn y Gwasanaeth Darparu. | Sicrhau y gall y gweithlu gymryd mantais o'r gofynion a'r disgwyliadau o ran datblygiad personol a gofynion safonol lefel ymarfer fel y manylir arnynt o fewn cynllun datblygu'r gweithlu a'r trefniadau comisiynu. |
| O dan drefniadau Partneriaeth Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed (POVA), gosod allan yn glir y disgwyliadau o ran ymarfer er mwyn hyrwyddo diogelwch oedolion sy'n agored i niwed o fewn ein Gwasanaethau. | Sicrhau trefniadau sy'n cadarnhau gweithredu ar safonau ymarfer, ac adrodd amdanynt. |
| Cyfrifoldeb am ansawdd a phriodoldeb gwasanaethau a ddarperir ac a gomisiynir. | Gweithredu fel y swyddog cofrestredig ar gyfer darparu gofal. |

# Siart Llywodraethu Swyddogion – Corfforaethol

**Aelodaeth**

1. <u>GRŴP ARWEINYDDIAETH (8)</u>

A) Arweinyddiaeth Gorfforaethol

- Y Prif Weithredwr a 3 Chyfarwyddwr Corfforaethol

Ynghyd â

B) Swyddogion Statudol


-Gofal Cymdeithasol
-Swyddog Monitro
-Cyllid
-Addysg

2. <u>GRŴP RHEOLI (17)</u>

A) Aelodau'r Grŵp Arweinyddiaeth
Ynghyd â
B) Phob Pennaeth Gwasanaeth arall

3. <u>COLEG UWCH REOLWYR (115)</u>

A) Y Grŵp Rheoli
Ynghyd â
B) Rheolwyr Unedau Busnes




Mae gan pob Pennaeth Gwasanaeth Dîm Rheoli adrannol ac mae pob Rheolwr Uned Fusnes o fewn gwasanaeth yn arwain cyfarfodydd tîm.